OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1077

# Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

## RHAN 4

Pan na fo'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys

### Eithriad ar gyfer eiddo unigol

**9.** At ddibenion paragraff 18(1) neu (2) o Atodlen 3, mae system ddraenio neu unrhyw ran o system ddraenio i'w thrin fel pe bai wedi ei dylunio i ddarparu draeniad i eiddo unigol yn unig os yw wedi ei dylunio i ddarparu draeniad i unrhyw adeiladau neu strwythurau eraill y bydd y canlynol, ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, yn berchen arnynt, yn eu rheoli neu â rheolaeth drostynt—

(a) person unigol, neu

(b) dau berson neu ragor gyda'i gilydd.

### Rhyddhau bond methu â chyflawni pan na fo'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys

**10.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i gorff cymeradwyo ryddhau bond methu â chyflawni o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau system ddraenio a adeiledir yn unol â chynigion a gymeradwywyd.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os gwnaeth y corff cymeradwyo—

(a) dyroddi tystysgrif o dan baragraff 12(2) o Atodlen 3, a

(b) gwneud gwaith i sicrhau bod y system ddraenio wedi ei chwblhau yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran ei gweithredoedd.

(3) Rhaid i'r corff cymeradwyo, o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau'r gwaith—

(a) anfon cyfrif llawn at y datblygwr o unrhyw symiau a gafwyd o dan y bond sydd wedi eu defnyddio i ddiwallu cost gwneud y gwaith,

(b) talu unrhyw swm dros ben i'r datblygwr, ac

(c) rhyddhau'r bond methu â chyflawni.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cynigion a gymeradwywyd" ("*approved proposals*") yw cynigion a gymeradwywyd o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3, gan gynnwys unrhyw amodau ynghylch y gymeradwyaeth;

mae "system ddraenio" ("*drainage system*") i'w dehongli fel system ddraenio nad yw'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys iddi.

**Hysbysu am fabwysiadu gwirfoddol**

**11.**—(1) Rhaid i gorff cymeradwyo roi unrhyw hysbysiad o dan baragraff 24(2) o Atodlen 3 cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu mabwysiadu system ddraenio nad yw'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys iddi.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) y rheswm dros fabwysiadu, a

(b) y dyddiad mabwysiadu.

**Cofrestru a dynodi yn dilyn mabwysiadu gwirfoddol**

**12.** O fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o dan baragraff 24(2) o Atodlen 3, rhaid i gorff cymeradwyo drefnu—

(a) i'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol gynnwys y system ddraenio yn y gofrestr a gedwir o dan adran 21 o'r Ddeddf, a

(b) i awdurdod dynodi ddynodi dros dro o dan baragraff 7 o Atodlen 1 unrhyw ran o'r system ddraenio (pa un a yw honno'n rhan a fabwysiadwyd ai peidio) sy'n gymwys i'w dynodi ac nad yw'r corff cymeradwyo yn berchen arni.